**Cyfarfod Cymdeithas CYSAGau Cymru, Yr Wyddgrug, 25 Mehefin 2015 (10.30am – 3pm)**

***Wales Association of SACREs meeting, Mold, 25 June 2015 (10.30am – 3pm)***

| | | |
|---|---|---|
| **Ynys Môn / *Anglesey***<br>Bethan James<br>Rheinallt Thomas<br><br>**Blaenau Gwent**<br>Gill Vaisey<br><br>**Pen-y-bont ar Ogwr / *Bridgend***<br>Vicky Thomas<br><br>**Caerffili/ *Caerphilly***<br>Vicky Thomas<br><br>**Caerdydd / *Cardiff***<br>Gill Vaisey<br><br>**Sir Gaerfyrddin / *Carmarthenshire***<br>Mary Parry<br><br>**Ceredigion**<br>Lyndon Lloyd<br><br>**Conwy**<br>Phil Lord<br>Nicholas Richter<br>Roger Boon<br>Athrawes (Phil i gael yr enw) | **Sir Ddinbych / *Denbighshire***<br>Gavin Craigen<br>Phil Lord<br>Brian H. Jones<br><br>**Sir y Fflint / *Flintshire***<br>Phil Lord<br>Y Cyngh. Chris Bithell<br>Y Cyngh. David Mackie<br>Mr Ron Keating<br><br>**Gwynedd**<br>Bethan James<br><br>**Merthyr Tudful / *Merthyr Tydfil***<br>Y Cyngh./<br>Vicky Thomas<br>Ernie Galsworthy<br><br>**Sir Fynwy / *Monmouthshire***<br>Gill Vaisey<br><br>**Castell-nedd Port Talbot / *Neath and Port Talbot***<br><br>**Casnewydd / *Newport***<br>Huw Stephens<br>Vicky Thomas<br><br>**Sir Benfro / *Pembrokeshire*** | **Powys**<br>John Mitson<br>Margaret Evitts<br><br>**Rhondda Cynon Taf**<br>Gill Vaisey<br><br>**Abertawe / *Swansea***<br>Vicky Thomas<br><br>**Torfaen /Torfaen**<br>Vicky Thomas<br><br>**Bro Morgannwg / *Vale of Glamorgan***<br>Gill Vaisey<br><br>**Wrecsam / *Wrexham***<br>Libby Jones<br><br>**Sylwedyddion / *Observers***<br><br>Eldon Phillips (MAGC) |

**Cyfarfod Cymdeithas CYSAGau Cymru, Yr Wyddgrug, 25 Mehefin 2015 (10.30am – 3pm)**

***Wales Association of SACREs meeting, Mold, 25 June 2015 (10.30am – 3pm)***

| **Cofnodion** | **Minutes** |
|---|---|
| 1. Cyflwyniad a chroeso<br><br>Yn absenoldeb Tania ap Sion, cadeiriwyd y cyfarfod gan yr Is Gadeirydd, Gavin Craigen.<br><br>Croesawodd Gavin Craigen yr aelodau i Sir y Fflint a chyflwynodd Mr Ian Budd – Prif Swyddog Addysg Cyngor Sir y Fflint. Rhoddodd Ian Budd anerchiad croeso i aelodau Cymdeithas CYSAGau Cymru, a chytunodd y gallai Libby Jones atodi'r anerchiad yn llawn at y cofnodion.<br><br>Diolchodd Gavin i Ian Budd am ei groeso a'i gefnogaeth i'r gymdeithas. Diolchodd Gavin hefyd i'r côr o Ysgol Uwchradd Sant Richard Gwyn, Y Fflint, am eu canu hyfryd a oedd i'w glywed wrth i'r aelodau gyrraedd y cyfarfod. | 1. Introduction and welcome<br><br>In Absence of Tania ap Sion, Vice Chair Gavin Craigen stood in as Chair for the meeting.<br><br>Gavin Craigen welcomed members to Flintshire and introduced Mr Ian Budd- Chief Education Officer of Flintshire County Council. Ian Budd delivered a welcome speech to WASACRE members, which he kindly agreed for Libby Jones to attach in full to the minutes.<br><br>Gavin thanked Ian Budd for his words of welcome and support for the association. Gavin also thanked the choir from Sir Richard Gwyn High School, Flint for their beautiful singing which greeted members on arrival to the meeting. |
| 2. Adfyfyrio tawel<br><br>Gofynnodd Gavin i'r aelodau feddwl am y cyfarfod oedd i ddod, a hefyd am y bobl, yn enwedig plant, mewn gwledydd eraill sy'n wynebu caledi mawr ar hyn o bryd. | 2. Quiet reflection<br><br>Gavin asked members to reflect on the meeting ahead, and also on the people, especially children, in other countries who are currently facing hardships. |
| 3. Ymddiheuriadau<br><br>Tania ap Sion, Edward Evans, Sue Cave, Tudor Thomas, Leslie Francis, Sharon Perry-Philips, Y Cyngh. Huw George, Helen Gibbon, Meinir Loader.<br><br>Cynigiodd Gavin fod CCYSAGauC yn | 3. Apologies<br><br>Tania ap Sion, Edward Evans, Sue Cave, Tudor Thomas, Leslie Francis, Sharon Perry-Philips, Cllr Huw George, Helen Gibbon, Meinir Loader.<br><br>Gavin proposed WASACRE send a letter |

| | |
|---|---|
| anfon llythyr o ddiolch a dymuniadau gorau i Tudor Thomas o CBAC a fydd yn ymddeol o'i swydd ar ddiwedd yr haf, ac felly ddim yn mynychu cyfarfodydd CCYSAGauC mwyach. Roedd yr aelodau'n cydnabod perthynas hirhoedlog Tudor â'r Gymdeithas a'i gefnogaeth a'i gyfeillgarwch gwerthfawr. Bydd Libby Jones yn ysgrifennu ac yn anfon y llythyr i Tudor cyn diwedd y tymor. | of thanks and best wishes to Tudor Thomas from WJEC who will be retiring from his post at the end of the summer, and therefore will no longer be attending WASACRE meeting. Members acknowledged Tudor's long standing relationship with the Association and his most valued support and friendship. Libby Jones will write and send the letter to Tudor before the end of term. |
| 4. Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd yn CNPT, 6 Mawrth 2015 | 4. Minutes of meeting held in NPT, 6 March 2015 |
| Derbyniwyd y cofnodion fel cofnod cywir o'r cyfarfod. | The minutes were accepted as a true record of the meeting. |
| 5. Materion yn codi | 5. Matters arising |
| Tudalen 6, Eitem 6. Bagloriaeth Cymru. Mynegodd yr aelodau bryder am gymhwyster newydd Bagloriaeth Cymru sy'n gwthio TGAU Addysg Grefyddol allan fel pwnc dewisol. Erbyn hyn mae gan y Fagloriaeth golofn yn y dewisiadau mewn ysgolion, lle byddai Astudiaethau Crefyddol wedi'i leoli yn naturiol. Dywedwyd fod rhai myfyrwyr yn cymryd AC fel pedwerydd dewis ac na fydd cyfle iddynt wneud hynny bellach mewn rhai ysgolion. Cytunodd Vicky Thomas fod amser wedi'i dynnu o Addysg Grefyddol mewn rhai ysgolion ar gyfer y Fagloriaeth, ond sicrhaodd yr aelodau nad oes rhaid ei chyflwyno felly. Cynigiwyd fod CCYSAGauC yn gofyn am ymateb gan CBAC ynglŷn ag Astudiaethau Crefyddol a Bagloriaeth | Page 6, Item 6. Welsh Baccalaureate. Member expressed concern over the new Welsh Bacc qualification squeezing out the Religious Studies GCSE as an option subject. The Welsh Bacc now has a column in the option choices in schools in which RS would have naturally be situated. It was pointed out that some students take RS as a fourth option and now they won't have that opportunity in some schools. Vicky Thomas agreed that in some schools time has been clawed from RE for Welsh Bacc, but assured members that it doesn't have to be delivered in that way. Vicky urged WASACRE and individual SACREs to keep a watching brief on the situation. It was proposed that WASACRE seek a response from WJEC regarding RS and |

| | |
|---|---|
| Cymru a phenderfynwyd y byddai Libby Jones yn ysgrifennu at Tudor Thomas cyn iddo ymddeol er mwyn ceisio cael ymateb gan CBAC cyn cyfarfod nesaf y Pwyllgor Gwaith yn yr hydref. Anogwyd y CYSAGau unigol i holi beth sy’n digwydd yn eu hysgolion nhw ac adrodd yn ôl i CCYSAGauC, a chynigiwyd fod CCYSAGauC yn ysgrifennu at y CYSAGau i ofyn iddynt fonitro’r sefyllfa yn swyddogol. Cadarnhaodd Mary Parry o CYSAG Sir Gaerfyrddin eu bod yn gwneud hyn yn barod. Awgrymwyd y byddai arolwg CCYSAGauC cyffredinol, i’w anfon i bob CYSAG, yn ddefnyddiol. Nododd Mary hefyd fod un ysgol yn Sir Gaerfyrddin wedi ceisio dysgu modiwl ar gyfer Bagloriaeth Cymru yn amser AG craidd, yn hytrach na TGAU Astudiaethau Crefyddol, ond heb fawr o lwyddiant. Mae’r ysgol wedi adfer Astudiaethau Crefyddol TGAU yn lle hynny. | the Welsh Baac and it was decided that Libby Jones would write to Tudor Thomas before his retirement begins to encourage a response from WJEC before the next Executive meeting in the autumn. Individual SACREs were encouraged to ask their own schools what is happening and report back to WASACRE, and it was proposed that WASACRE writes to SACREs to ask them to officially monitor the situation. Mary Parry from Carmarthenshire SACRE confirmed that they are doing this already. It was suggested that a generic WASACRE survey, sent to each SACRE would be useful. Mary also commented that one school in Carmarthenshire has tried teaching a module for the Welsh Baac in KS4 core RE time, instead of RS GCSE but with little success. The school have now brought back the GCSE RS instead. |
| Tudalen 4, Eitem 5. Materion yn codi - Cynrychiolaeth ar Gyngor AG Cymru a Lloegr. Cadarnhaodd Gavin Craigen fod y sefyllfa wedi cael ei thrafod yng nghyfarfod diwethaf y Pwyllgor Gwaith. Anfonwyd llythyr cryf at Joyce Miller, Cadeirydd presennol y Cyngor, yn tynnu sylw at y ffaith fod y Cyngor AG ar gyfer Cymru a Lloegr, ac yn mynegi siom a phryder parhaus y Gymdeithas am y trefniadau presennol o gael cynrychiolaeth o Gymru ar y Bwrdd. Nododd Gavin fod pob un o’r eitemau ar | Page 4, Item 5. Matters arising- Representation on RE Council for England and Wales. Gavin Craigen confirmed that the situation was discussed at the last executive meeting. A firm letter was sent to Joyce Miller, current Chair of REC, pointing out that the RE Council is for both England and Wales and expressed the Association’s continued disappointment and concern regarding the current arrangements for the representation of Wales on the Board. Gavin commented that all |

| | |
|---|---|
| yr agendâu ar hyn o bryd ac yn hanesyddol yn canolbwyntio ar Loegr a bod nemor ddim trafodaeth am addysg yng Nghymru yn digwydd, heblaw'r Bwrdd yn cael diweddariadau byr gan gynrychiolwyr o Gymru pan maent yn bresennol. Atgoffodd Eldon Philips yr aelodau fod tri chorff yn cael eu cynrychioli yng nghyfarfodydd cyffredinol y Cyngor AG a bod MAGC yn mynychu'r cyfarfodydd cyffredinol yn rheolaidd. Cynigiodd Gill Vaisey, er mwyn bod yn deg, y gallai CCYSAGauC ofyn fod o leiaf un sedd yn cael ei diogelu ar y Bwrdd Gweithredol i gynrychiolydd o Gymru a hefyd o leiaf un sedd i gynrychiolydd o Loegr. Teimlid y byddai hyn yn gyfaddawd da. Diolchodd Gavin Craigen i Gill am ei hawgrym a chadarnhaodd fod Joyce Miller, wedi cynnig cyfarfod a siarad â CCYSAGauC er mwyn dod o hyd i ateb. Bydd CCYSAGau yn gweithredu ar hyn.<br><br>Tud 15, Eitem 7. Ennyn Diddordeb Bechgyn mewn AG. Cyfeiriodd un o'r aelodau at sylwadau Leslie Francis fod angen ymchwil bellach i faes bechgyn/dynion a chrefydd. Dywedodd yr aelod fod y farchnad Gofal wedi mynd yn Farchnad fawr ac y gellid gwneud ymchwil i ystyried sut y mae crefydd wedi cael effaith ar hyn. Gallai/dylai addysg grefyddol mewn ysgolion ddarparu sail foesol gref o urddas i ferched a bechgyn sy'n symud i faes gofal. Nododd Gavin Craigen fod AG yn berthnasol i wahanol fathau o waith ac y | agendas items are currently and historically England focussed and that little or no discussion of Welsh education takes place, other than the Board receiving brief updates from welsh representatives when present. Eldon Philips reminded members that there are three bodies represented at RE Council general meetings and that REMW is regularly in attendance at the general meetings. Gill Vaisey proposed that in order to remain fair WASACRE could request that at least one seat is safeguarded on the Executive Board for a representative from Wales and also at least one seat is safeguarded for a representative from England. It was felt that this might be a good compromise. Gavin Craigen thanked Gill for her suggestion and confirmed that Joyce Miller, has offered to meet and talk with WASACRE in order to find a solution. WASACRE will follow this up.<br><br>P15. Item 7. Engaging Boys in RE. Member referred to the comments of Leslie Francis regarding further research needed in the area of boys/males and religion. The member pointed out that the Care market has become a large Market and that research could be carried out to look at how religion has had an impact on this. Religious education in schools should/could provide a strong moral basis of dignity for girls and boys moving into the area of care. Gavin Craigen commented that RE is relevant for different kinds of employment and |

| | |
|---|---|
| gallem edrych ar hyn y fanylach a sicrhau fod AG yn cael ei lle. Roedd yr aelodau'n gytûn fod gan AG le pwysicach nag erioed y dyddiau hyn. | we could look at this more closely and ensure that RE has its place. Members agreed that RE has more important a place than it has ever had today. |
| Tud 15, Eitem 7. Ennyn Diddordeb Bechgyn mewn AG. Dywedodd Mary Parry, er bod y cofnodion yn nodi na ellir cynnwys ei chyflwyniad ar wefan CCYSAGauC am resymau hawlfraint, ei bod yn fodlon i CYSAGau ei ddefnyddio ac y gall hi roi copïau i unrhyw un sydd â diddordeb ond iddynt wneud cais. | Page 15, Item 7. Engaging Boys in RE. Mary Parry pointed out that although the minutes state that her presentation cannot be included on the WASACRE website for copyright reasons, that she is happy for SACREs to use it and can provide copies to those who are interested on request. |
| 6. Diweddariadau: | 6. Up-dates: |
| Adolygiad cwricwlwm: | Curriculum review: |
| Cadarnhaodd Mary Parry fod CCYSAGauC wedi anfon ymateb ar ran y CYSAGau i Adroddiad Donaldson. Mae'r Gweinidog wedi dweud ei fod yn derbyn yr egwyddorion, ond nid ydym yn gwybod y manylion hyd yma. Sylwodd Phil Lord na fydd y cwricwlwm newydd arfaethedig yn cael ei weithredu tan 2020 ac mae CYSAGau eisoes wedi oedi ar yr adolygiad o'r meysydd llafur cytûn. Gofynnodd pa gyngor all y Gymdeithas ei roi i'r CYSAGau. Roedd Gill Vaisey'n meddwl tybed a oedd angen gwneud unrhyw beth o ran adolygu oherwydd ar hyn o bryd maent yn seiliedig ar y cwricwlwm presennol sydd heb newid eto felly tan fod hynny'n digwydd nid oes angen newid. Atgoffodd Gavin yr aelodau nad oes raid i ni gadw at y cylch 5 mlynedd ac felly, cyn gynted ag y gwyddom beth | Mary Parry confirmed that WASACRE sent a response on behalf of the SACREs to the Donaldson report. The Minister has said he accepts the principles, but as yet we do not know the detail. Phil Lord raised the issue that the implementation of the new, proposed curriculum won't be until 2020 and SACREs have already delayed the review of the agreed syllabus. He asked what advice can the Association give to SACREs. Gill Vaisey offered her thoughts asking if there is any need to do anything with regard to reviewing as currently they are based on the current curriculum which hasn't yet changed so until it does there is no need to change. Gavin reminded members that we don't have to keep to the 5 year cycle and so, as soon as we know what the changes are we can make the appropriate changes to our agreed |

| | |
|---|---|
| yw'r newidiadau, gallwn wneud y newidiadau priodol i'n meysydd llafur cytûn a chynnal yr adolygiad. Dywedodd Bethan James fod athrawon Gwynedd a Môn yn pryderu fod yr adroddiad yn un radical a'i bod yn bosibl nad yw athrawon yn gyffredinol yn sylweddoli faint o newid sydd ar y gorwel. Byddai o fudd codi hyn ym mhob cyfarfod er mwyn cadw i fyny â'r datblygiadau diweddaraf a bod yn barod am y newid hwnnw. Ychwanegodd yr aelod o Gonwy y bydd yn anodd i athrawon, bydd yn rhaid iddynt feddwl yn wahanol, ac yn y bôn dechrau o'r dechrau. Cytunodd yr aelodau fod angen i CCYSAGauC gymryd rhan yn y drafodaeth honno fel y gallwn gefnogi'r athrawon. Dywedodd Gavin ein bod yn ddiolchgar iawn i NAPfRe sy'n rhoi canllawiau a chymorth ar y mater pwysig hwn. | syllabi and have the review. Bethan James raised a concern of teachers from Gwynedd and Anglesey on how radical the report is and that teachers in general may not realise how much change there is on the horizon. It would be beneficial to raise this at every meeting in order to keep up with the latest developments and be ready for that change. Member from Conwy added that it is going to be difficult for teachers, they will have to think differently, and basically start from scratch. Members agreed that WASACRE needs to get involved in that discussion so that we can support teachers. Gavin commented that we are very grateful to NAPfRE who provide guidance and support on this important matter. |
| 7. Cyflwyniad NAPfRE:<br><br>Hyfforddiant Addoli ar y Cyd CYSAG Wrecsam– *Libby Jones*<br><br>Diolchodd yr aelodau i Libby am rannu'r cyflwyniad powerpoint am addoli ar y cyd a sut i'w gyflwyno'n effeithiol, a grëwyd ac a ddefnyddiwyd gan CYSAG Wrecsam. Cafwyd cwestiynau o'r llawr a thrafodwyd y syniadau canlynol:<br><br>Mae Addoli ar y Cyd yn rhan bwysig o ddatblygiad plant fel unigolion ac fel dinasyddion byd-eang; budd gwobrwyo | 7. NAPfRE presentation:<br><br>Wrexham SACRE Collective Worship training – *Libby Jones*<br><br>Members thanked Libby for sharing the training powerpoint about collective worship and how to deliver it effectively, created and used by Wrexham SACRE. Questions were taken from the floor from which the following ideas were discussed:<br><br>Collective worship as an important part of a child's development as individuals and as a global citizens; the benefit of |

| | |
|---|---|
| disgyblion am arddangos gwerthoedd da yn hytrach na chyflawniadau academaidd neu chwaraeon; gwahanol ffyrdd o ledaenu hyn yn cynnwys hyfforddi Penaethiaid ac uwch arweinwyr yn hytrach nag athrawon, cyfarfodydd Ffederasiwn y Penaethiaid a WASH, defnyddio'r cyfryngau yn fwy effeithiol, Cynhadledd Genedlaethol CCYSAGauC. | having pupil awards for having and displaying good values as opposed to academic and sporting achievements; various avenues for dissemination including training Heads and senior leaders instead of teachers, Heads' Federation meetings and WASH, using media more effectively, WASACRE National Conference. |
| Prosiect Gweithio mewn Partneriaeth– *Phil Lord* | Partnership working project – *Phil Lord* |
| Diolchwyd i Phil am ei gyflwyniad lle y rhannodd astudiaethau achos o ymarfer da o ran gweithio mewn partneriaeth rhwng ysgolion ac eglwysi. Roedd un enghraifft yn seiliedig ar stori'r Pasg lle y defnyddiodd disgyblion Mwy Abl a Thalentog o chwe ysgol gynradd ac un ysgol uwchradd *iPads* a thechnoleg arall i ymchwilio i stori'r Pasg gyda chynrychiolwyr y ffydd Gristnogol yn Llandudno. Rhannodd Phil hefyd ddeunyddiau a gwybodaeth am gynhadledd chweched dosbarth ar 'ymgysylltu ysbrydol' gydag adnoddau Lat Blaycock. | Phil was thanked for his presentation in which he shared case studies of good practice partnership working between schools and churches. One example was based on the Easter story where More Able and Talented pupils from six primaries and one secondary school used iPads and other technology to investigate the Easter story with Christian faith representatives in Llandudno. Phil also shared materials and information about a Sixth form conference on 'spiritual engagement' using Lat Blaylock's resource. |
| Cafwyd cwestiynau o'r llawr yn cynnwys, sut mae athrawon yn llwyddo i ymestyn diddordeb y disgyblion yn ôl yn yr ysgol i sicrhau fod y cwestiynau sy'n deillio o'r gweithgaredd yn cael eu hateb ac nid eu hanwybyddu. Awgrymodd Phil y gellid cyflwyno gweithgareddau addas yn y dosbarth yn dilyn y gynhadledd er mwyn annog trafodaeth bellach ac ehangu datblygiad dysgu a moesol y | Questions were taken from the floor including, how teachers cope with extending the engagement of pupils back in school to ensure that the questions evoked from the activity are answered and not ignored. Phil suggested that appropriate activities during form time could be introduced following the conference to encourage further discussion and extend learning and |

| | |
|---|---|
| myfyrwyr.<br><br>Nododd Bethan James fod AG statudol yn aml yn cael ei weld fel 'blwch arall i'w dicio' a bod yr astudiaethau achos hyn yn dangos pa mor werthfawr yw AG ac y dylai pob un o'r astudiaethau achos fynd i ysgolion. Ychwanegodd ei bod yn angenrheidiol ein bod yn rhoi rhyddid i ysgolion ddysgu AG yn y modd hwn. | spiritual development in students<br><br>Bethan James commented that often statutory RE is seen as 'another' box to tick' and that these case studies show how valuable RE is and each of the case studies should go to schools. She added that it is necessary for us to give schools the freedom to teach RE in this way. |
| 8. Adroddiad ar gyfarfod y Pwyllgor Gwaith a gynhaliwyd ar 11 May 2015<br><br>Tynnodd Gavin Craigen sylw at rai o'r prif bwyntiau yn yr adroddiad, er enghraifft, mae'r holiadur ar-lein yn dal i gael sylw. Mae ymateb CCYSAGauC i adroddiad Donaldson wedi cael ei anfon. Bydd cyfarfod gyda Gavin Craigen a Libby Jones o CCYSAGauC a'n cysylltiadau yn Llywodraeth Cymru ar 24 Medi. Bydd yr eitem addoli ar y cyd ar yr agenda yn cael sylw, gydag astudiaethau achos am addoli ar y cyd yn cael eu datblygu a'u rhannu ar wefan CCYSAGauC ynghyd â dogfennau canllaw CCYSAGauC ac Estyn. Rhannwyd cyflwyniad hyfforddi CYSAG Wrecsam yn barod yn y cyfarfod a gellir ei rannu'n ehangach fel ag y trafodwyd yn flaenorol yn y cofnodion, ac fe'i rhoddir hefyd ar wefan CCYSAGauC. | 8. Report from the Executive Committee held on 11 May 2015<br><br>Gavin Craigen highlighted some of the main points within the report, for example, the online questionnaire is still being pursued. The submission of WASACRE's response to the Donaldson report has been sent. There will be a meeting with Gavin Craigen and Libby Jones from WASACRE and our Welsh Government contacts on 24 September. The collective worship item on the agenda will be pursued, with case studies for collective worship being developed and shared on the WASACRE website along with the WASACRE and Estyn guidance documents. Wrexham SACRE's training presentation has already been shared at the meeting and can be shared more widely as previously discussed in the minutes and will be put on the WASACRE website. |
| 9. *Signposts:* cynllun gan Gyngor Ewrop – *Phil Lord*<br><br>Rhoddodd Phil gyflwyniad ar y ddogfen | 9. *Signposts*: a Council of Europe initiative – Phil Lord<br><br>Phil presented on the Signposts document |

| | |
|---|---|
| *Signposts* sydd eisoes wedi'i chyhoeddi gan EFTRE, ac a fydd ar gael i bob ysgol yn Ewrop drwy wefan EFTRE. Mae'r ddogfen yn amlinellu ac yn disgrifio beth ddylai addysg grefyddol fod ac yn awgrymu dull cyffredin ar draws Ewrop. Cynigiodd Rheinallt Thomas fod y ddogfen yn mynd i gyfarfod cyswllt Llywodraeth Cymru ym mis Medi. Holodd aelod CYSAG Conwy am y tir cyffredin rhwng y gwledydd a'r diwylliannau gwahanol a gynrychiolir ar EFTRE, ac atebodd Phil fod brwdfrydedd athrawon ar draws Ewrop yr un fath ag yng Nghymru. Dywedodd Phil ymhellach fod Cymru ar y blaen gan ein bod yn eisoes yn gwneud llawer o'r hyn sydd yn y ddogfen. Mae gwledydd eraill yn dechrau ar lefelau amrywiol islaw Cymru ac er bod rhai gwledydd sy'n dysgu AG mewn ffordd debyg i Gymru, mae yna nifer o wledydd sy'n dysgu AG yn wahanol ac yn defnyddio dull mwy enwadol. Diolchodd Gavin i Phil unwaith eto am ei gyflwyniad a'i adroddiad diddorol. | which has been recently published by EFTRE, and which will be available to all schools in Europe via the EFTRE Website. The document outlines and describes what religious education should be and suggests a commonality across Europe. Rheinallt Thomas proposed that the document should be taken to the Welsh Government contact meeting in September. Conwy SACRE member enquired about the common ground between the different countries and cultures represented on EFTRE, to which Phil responded that the passion of the teachers across Europe is the same as in Wales. Phil commented further that Wales are leading in terms of what we already do in the document. Other countries start at varying levels below Wales and that whilst there are some countries who teach RE in a similar way to Wales there are many countries that teach RE differently and use a more confessional approach. Gavin thanked Phil once again for his presentation and interesting report. |
| 10. Gohebiaeth | 10. Correspondence |
| Darllenodd Libby Jones yr ymateb a gafwyd gan Ann Keane, Prif Swyddog Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru i'r llythyr a anfonwyd iddi gan CCYSAGauC yn diolch am ei chefnogaeth ac yn dymuno'n dda iddi yn y dyfodol. Yn ei llythyr dywedodd Ann Keane mai'r Prif Arolygydd newydd fydd Meilyr Rowlands. | Libby Jones read the response received from Ann Keane, Chief Inspector of Education and Training in Wales to the letter WASACRE sent thanking her for her support and wishing her well in her future. In her letter Ann Keane shared the name of the next Chief Inspector, Meilyr Rowlands. |

| | |
|---|---|
| Rhoddwyd sylw i'r ohebiaeth ddiweddar gan y Cyngor Addysg Grefyddol ynghynt ar yr agenda. | The recent REC correspondence was covered under previous agenda items. |
| Adroddodd Libby Jones fod tri chais am wybodaeth ynglŷn â thynnu allan o AG wedi'u derbyn gan wahanol ysgolion yng Nghymru a bod cyngor wedi'i anfon at bob un. Cadarnhaodd Gill Vaisey y bydd hi'n gweithio ar y canllawiau i ysgolion ar dynnu allan o wersi, yn yr haf. | Libby Jones reported that three requests for information regarding withdrawal from RE had been received from different schools across Wales and that advice had been sent to each accordingly. Gill Vaisey confirmed that she will be working on the guidance for schools on withdrawal procedures in the summer. |
| Rhannodd Libby Jones wybodaeth a dderbyniwyd gan Nia Mair Jones o Lywodraeth Cymru ynghylch digwyddiadau i gofio am y Rhyfel Byd Cyntaf a grant sydd ar gael i bob adran mewn ysgol, nid yr adran hanes yn unig. Bydd Libby Jones yn gofyn am i'r wybodaeth hon fod ar gael ar wefan CCYSAGauC. | Libby Jones shared information received from Welsh Government's Nia Mair Jones regarding the First World War commemorations and a grant that I available to all departments in school not just the history department. Libby Jones will ask for this information to be made available on the WASACRE website. |
| 11.U.F.A. | 11.A.O.B. |
| Siaradodd Rheinallt Thomas ar ran Mudiad Addysg Grefyddol Cymru ac eglurodd, oherwydd y sefyllfa yng Nghymru gyda nifer o Awdurdodau Lleol ddim yn tanysgrifio i MAGC bellach, bu'n rhaid i'r Mudiad wneud newidiadau. Sicrhaodd yr aelodau fod MAGC yn 'dal yn fyw' ac yn dal yn gysylltiedig â'r Cyngor Addysg Grefyddol ac RENews ac yn y blaen. Gallai Rheinallt gadarnhau hefyd fod y mudiad yn dal i gynhyrchu RE Ideas a'u bod wedi cynhyrchu taflen a anfonwyd i bob ALl, eglwysi ayb i hysbysebu eu gwasanaethau ac i ofyn am | Rheinallt Thomas spoke on behalf of REMWales and explained that as a result of the situation in wales with many LA's not subscribing to REMW anymore the organization has been forced to make changes. He assured members that REMW is 'still alive' and still has relationships with REC and RENews etc. Rheinallt was also able to confirm that the movement still produces RE Ideas and have produced a flyer which has gone out to all LA's and churches etc to advertise its services and to request help with RE ideas from teachers. Sam Jesson from Wrexham will be assisting the |

| | |
|---|---|
| gymorth gydag RE Ideas gan athrawon. Bydd Sam Jesson o Wrecsam yn helpu'r mudiad gyda RE Ideas y flwyddyn nesaf. Mae Mudiad Addysg Grefyddol Cymru yn dathlu 50 mlynedd o wasanaeth i AG a bydd llyfr ar hanes y Mudiad yn cael ei gyhoeddi cyn hir a bydd ar gael i CYSAGau fel ffeiliau PDF. Diolchodd Rheinallt i CCYSAGauC am ei chefnogaeth barhaus. | movement with RE Ideas next year. REMW celebrates 50 years of service to RE and a book on REMW's history will be published soon and available for SACREs on PDF files. Rheinallt thanked WASACRE for its continued support. |
| 12. Dyddiad y cyfarfod nesaf: 25 Tachwedd 2015, Blaenau Gwent, Ebbw Vale<br><br>Dyddiadau cyfarfodydd yn y dyfodol:<br><br>Gwanwyn 2016 Sir Benfro;  Haf 2016 Sir Ddinbych; Hydref 2016 Sir Gaerfyrddin; Gwanwyn 2017 Sir Fynwy. | 12. Date for next meeting: 25 November 2015 Blaenau Gwent, Ebbw Vale<br><br>Future meeting dates:<br><br>Spring 2016 Pembrokeshire; Summer 2016 Denbighshire; Autumn 2016 Carmarthenshire; Spring 2017 Monmouthshire. |